

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

9 Tachwedd 2018

Annwyl Lesley,

Materion yn codi yn dilyn y cyfarfod ar 8 Tachwedd

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddoe i roi tystiolaeth ar yr adroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019–20. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch ynglŷn â nifer o faterion.

Ystyried Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018

Yn ystod y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor i ystyried y pum rheoliad sy'n ymwneud â chyllidebau carbon, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 6 Tachwedd 2018.

Dyma roi gwybod i chi'n ffurfiol felly ein bod yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y rheoliadau, yn unol â Rheol Sefydlog 27.8.

Byddwn yn ysgrifennu atoch yn fuan gyda chyfres o gwestiynau am y rheoliadau.

Y Cynllun Cyflenwi Carbon Isel

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ddoe, gwnaethoch ymrwymo i adael i'r Pwyllgor weld y Cynllun Cyflenwi Carbon Isel ar gam cynnar. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi syniad pryd y gallwn ddisgwyl cael copi o'r Cynllun Cyflenwi i gynorthwyo â'n gwaith blaengynllunio.

Bil Amaethyddiaeth y DU



Ystyriodd y Pwyllgor eich llythyr dyddiedig 30 Hydref, lle y gwnaethoch ateb cyfres o gwestiynau manwl am Fil Amaethyddiaeth y DU. Byddwn yn mynd ar drywydd rhai o'r materion hyn gyda chi pan fyddwch yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 6 Rhagfyr. Yn y cyfamser, gofynnwn i chi ddarparu ymateb manylach i'r cwestiynau a ganlyn:

- **A allwch chi ymhelaethu ar yr haerriad yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol na fyddai cynnwys darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth y DU sy'n berthnasol i Gymru yn cyfyngu ar y gwaith o lunio a gweithredu cynlluniau newydd yng Nghymru?**
- **A allwch chi gadarnhau a fydd Llywodraeth Cymru yn gallu dibynnu ar gyfraith yr UE a ddargedwir i barhau i wneud taliadau i ffermwyr o dan gynlluniau presennol y Polisi Amaethyddol Cyffredin os na chaiff darpariaethau i Gymru eu cynnwys ym Mil Amaethyddiaeth y DU?**
- **Os na fydd yn bosibl dibynnu ar gyfraith yr UE a ddargedwir yn y ffordd hon, pa ddarpariaethau yn Atodlen 3 y bydd eu hangen er mwyn parhau i wneud taliadau i ffermwyr o dan y cynlluniau CAP presennol?**

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd, gwnaethoch nodi na fyddwch yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer y Memorandwm os na eir i'r afael â'ch pryderon ynglŷn â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (cymal 26).

- **Os na fyddwch yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer y Memorandwm, beth fydd goblygiadau hynny i'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chymru, o gofio eich bod wedi gofyn iddynt gael eu cynnwys?**

Bil Pysgodfeydd y DU

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ddoe, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pryd y gosodir unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU. Nid oedd yn glir o'ch ymateb pryd fydd y Memorandwm yn cael



ei osod gerbron y Cynulliad. Fel y gwyddoch, cafodd Bil Pysgodfeydd y DU ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Hydref. Mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod yn rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fel arfer heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl i Fil gael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU. Felly, roeddem wedi disgwyl i'r Memorandwm gael ei osod heddiw.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i fabwysiadu'r un dull gweithredu wrth ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn a ddefnyddir wrth ystyried Memorandwm Bil Amaethyddiaeth y DU. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi syniad pryd y caiff Memorandwm Bil Pysgodfeydd y DU ei osod er mwyn cynorthwyo â'n gwaith blaengynllunio.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i'r cwestiynau uchod erbyn **dydd Iau 15 Tachwedd**.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

copi at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

